OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 1011

# Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020

## RHAN 4

## Gorfodi

**Camau gorfodi**

**16.**—(1) Caiff swyddog gorfodaeth roi hysbysiad cydymffurfio i berson os oes gan y swyddog sail resymol dros amau bod y person—

(a) yn gweithredu yn groes i gyfarwyddyd mangre, cyfarwyddyd digwyddiad neu gyfarwyddyd man cyhoeddus, neu

(b) yn methu, neu wedi methu, â chymryd camau sy’n ofynnol o dan reoliad 5(6), 6(5) neu 7(7).

(2) Caiff hysbysiad cydymffurfio bennu mesurau y mae rhaid i’r person y’i rhoddir iddo eu cymryd cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol er mwyn—

(a) atal y person hwnnw rhag parhau i weithredu yn groes i’r cyfarwyddyd, neu

(b) cywiro’r methiant i gymryd camau.

(3) Pan fo gan gwnstabl sail resymol dros amau bod person mewn mangre yn groes i gyfarwyddyd mangre, caiff y cwnstabl—

(a) cyfarwyddo’r person i adael y fangre;

(b) symud y person o’r fangre.

(4) Pan fo gan gwnstabl sail resymol dros amau bod digwyddiad yn cael ei gynnal yn groes i gyfarwyddyd digwyddiad, caiff y cwnstabl—

(a) cyfarwyddo bod digwyddiad yn dod i ben;

(b) cyfarwyddo person i adael y digwyddiad;

(c) symud person o’r digwyddiad.

(5) Pan fo gan gwnstabl sail resymol dros amau bod person mewn man cyhoeddus yn groes i gyfarwyddyd man cyhoeddus, caiff y cwnstabl—

(a) cyfarwyddo’r person i adael y man;

(b) symud y person o’r man.

(6) Caiff cwnstabl—

(a) wrth arfer y pŵer ym mharagraff (3), (4) neu (5), gyfarwyddo person i ddilyn unrhyw gyfarwyddiadau y mae’r cwnstabl yn ystyried eu bod yn angenrheidiol;

(b) defnyddio grym rhesymol wrth arfer y pŵer ym mharagraff (3)(b), (4)(c) neu (5)(b).

(7) Pan fo gan gwnstabl sail resymol dros amau bod person y cyfeirir ato ym mharagraff (3), (4) neu (5) yn blentyn (“P”) gydag unigolyn (“U”) a chanddo gyfrifoldeb dros P—

(a) caiff y cwnstabl gyfarwyddo U i sicrhau bod C yn gadael y fangre, y digwyddiad neu'r man cyhoeddus, yn ôl y digwydd, a

(b) rhaid i U, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, sicrhau bod P yn cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd neu gyfarwyddiad a roddir gan y cwnstabl i P.

(8) Os oes gan swyddog gorfodaeth sail resymol dros amau bod person yn torri (neu ar fin torri) rheoliad 14(4), caiff y swyddog symud y person o lwybr cyhoeddus neu dir mynediad (o fewn yr ystyr a roddir gan reoliad 14(7)) sydd ar gau (neu sy'n cael ei gau) yn rhinwedd rheoliad 14(1), a chaiff ddefnyddio grym rhesymol i wneud hynny.

(9) Pan fo gan swyddog gorfodaeth sail resymol dros amau bod y person y cyfeirir ato ym mharagraff (8) yn blentyn ("P") gydag unigolyn ("U") a chanddo gyfrifoldeb dros P—

(a) caiff y swyddog gyfarwyddo U i sicrhau bod C yn gadael y man cyhoeddus neu'r tir mynediad, a

(b) rhaid i U, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, sicrhau bod P yn cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd neu gyfarwyddiad a roddir gan y swyddog i C.

(10) At ddibenion paragraffau (7) a (9), mae gan U gyfrifoldeb dros blentyn os oes gan U—

(a) gwarchodaeth neu ofal am y plentyn am y tro, neu

(b) cyfrifoldeb rhiant dros y plentyn.

(11) Caiff swyddog gorfodaeth gymryd camau gorfodi eraill i hwyluso arfer pŵer a roddir i'r swyddog gan y rheoliad hwn neu reoliad 17.

(12) Ni chaiff swyddog gorfodaeth ond arfer pŵer dan y rheoliad hwn neu reoliad 17 os yw'r swyddog yn ystyried ei bod yn angenrheidiol ac yn gymesur gwneud hynny.

(13) Mae cyfeiriadau yn y rheoliad hwn at "cwnstabl" i'w darllen fel pe baent yn cynnwys swyddog cymorth cymunedol yr heddlu.